

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru ar y Bil Cyllid (Rhif 2)

Ionawr 2026



1. Cefndir

1. Cafodd y Bil Cyllid (Rhif 2)¹ (y Bil) ei gyflwyno i Dŷ'r Cyffredin ar 2 Rhagfyr 2025. Fe'i noddir gan Drysorlys EF.
2. Mae enw hir y Bil yn nodi ei fod yn Fil i wneud darpariaeth mewn cysylltiad â chyllid.
3. Mae'r Bil yn cynnwys 279 o gymalau a 23 o Atodlenni.
4. Cafodd y Bil ei ail ddarlleniad ar 16 Rhagfyr 2025 a chafodd ei ystyried gan Bwyllgor o'r Tŷ Cyfan ar 12 Ionawr 2026. Ar yr adeg y cytunwyd ar yr adroddiad hwn, roedd y Bil yn y Cyfnod Pwyllgor yn Nhŷ'r Cyffredin.²

Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol Llywodraeth Cymru

5. Mae Rheolau Sefydlog 29.1 a 29.2 yn darparu bod angen memorandwm cydsyniad deddfwriaethol pan fydd Bil perthnasol gerbron Senedd y DU yn gwneud darpariaeth mewn perthynas â Chymru sy'n rhoi sylw i faterion datganoledig.
6. Gosododd Mark Drakeford AS, Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a'r Gymraeg (yr Ysgrifennydd Cabinet), Femorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol (y Memorandwm) ar 16 Rhagfyr 2025.³
7. Cytunodd y Pwyllgor Busnes y byddai'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad a'r Pwyllgor Cyllid yn cyflwyno adroddiad ar y Memorandwm erbyn 30 Ionawr 2026.⁴

Darpariaethau y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer

8. Mae'r Memorandwm yn nodi amcanion polisi'r Bil, gan ddatgan:

"Bwriedir i'r Bil wneud datganiad cyllideb Llywodraeth y DU yn gyfraith, i'r graddau y mae'n ymwneud â threthiant. Cafodd y datganiad cyllideb ("y Gyllideb") ei wneud gan Ganghellor y Trysorlys ar 26 Tachwedd 2025. Amcanion polisi datganedig

¹ Bil Cyllid (Rhif 2), fel y'i cyflwynwyd (Bil 342)

² Bil Cyllid (Rhif 2), Cyfnodau

³ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025

⁴ Y Pwyllgor Busnes, Amserlen ar gyfer ystyried: Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), Rhagfyr 2025

Llywodraeth y DU yn y Gyllideb yw cyflwyno deddfwriaeth mewn perthynas ag ystod eang o bolisiâu, yn enwedig ym meysydd adnewyddu trethi blynyddol, cyflwyno cynigion treth newydd a chynnal gwaith gweinyddu'r system dreth. Hanfod y Bil yw sut y bwriedir rhoi amcanion polisi trethiant y Gyllideb ar waith.”⁵

9. Mae'r Memorandwm yn ymwneud ag un elfen o amcanion polisi'r Bil yn unig, sef creu math newydd o dreth incwm, treth incwm eiddo.⁶

10. Dywed yr Ysgrifennydd Cabinet yn y Memorandwm:

“... dim ond un elfen o'r Bil y mae angen ei hystyried o dan Reol Sefydlog 29 – cymalau 6 i 8 ac Atodlenni 1 a 2 sy'n creu treth incwm eiddo newydd sydd wedi'i heithrio o'r trefniadau treth incwm presennol, a nodir yn Neddf Treth Incwm 2007 (“Deddf 2007”). Ar hyn o bryd mae 7 math o dreth incwm ac mae'r Bil yn mewnosod math newydd yn y fframwaith hwn –sef treth incwm eiddo. O ganlyniad i hyn, mae Llywodraeth y DU hefyd wedi cynnig treth incwm eiddo newydd yng Nghymru sy'n atgynhyrchu'r ddarpariaeth bresennol mewn perthynas â'r dreth incwm - cyfradd treth incwm Cymru ond, mewn perthynas â threth incwm eiddo. Mae cymalau 6 i 8 (ac atodlenni 1 a 2) yn y Bil yn ceisio dod â'r dreth incwm eiddo yn gyfraith.”⁷

11. Asesiad Llywodraeth Cymru yw bod angen cydsyniad ar gyfer cymal 8 (cyfraddau eiddo Cymru a'r Alban a bennir gan Senedd Cymru a Senedd yr Alban) a pharagraffau 2 i 4 o Atodlen 2 (cyfraddau incwm eiddo Cymru a'r Alban), gan eu bod yn ymwneud â materion datganoledig.⁸

12. Mae cymal 8(1) yn darparu bod Atodlen 2 y Bil yn gwneud darpariaeth i'r Senedd bennu trethi eiddo yng Nghymru.⁹

⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraff 3

⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraff 4

⁷ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraff 6

⁸ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraff 7

⁹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraff 8

13. Yn y Memorandwm, dywed yr Ysgrifennydd y Cabinet:

“Nid yw Llywodraeth y DU o'r farn bod ar Gymal 6 ac Atodlen 1 angen cydsyniad deddfwriaethol. Ym marn Llywodraeth y DU, mae ar Gymal 8 ac Atodlen 2 Rhan 2 angen cynnig cydsyniad deddfwriaethol.”¹⁰

14. Mae Llywodraeth Cymru yn cytuno ag asesiad Llywodraeth y DU mewn perthynas â Chymal 8 a pharagraffau 2 i 4 yn Atodlen 2, Rhan 2.¹¹

Pwerau dirprwyedig

15. Mae is-adran (2) o gymal 8 yn nodi y bydd y darpariaethau ar gyfer cyfraddau eiddo Cymru ar wahân i'w pennu gan y Senedd yn dod i rym ar ddiwrnod a bennir gan Drysorlys EF drwy reoliadau. Mae is-adrannau (3) a (4) yn darparu mai'r cynharaf y gellir dod â'r darpariaethau hyn i rym yw blwyddyn dreth 2027-28.¹²

16. Mae is-adran (5) o gymal 8 yn nodi y caiff y rheoliadau benodi diwrnodau gwahanol at ddibenion gwahanol. Mae'r Nodiadau Esboniadol i'r Bil yn egluro'r ddarpariaeth hon, drwy nodi y gallai hyn ganiatáu dyddiad cychwyn gwahanol mewn perthynas â Chymru a'r Alban.¹³

17. Nid yw'r Bil yn dirprwyo unrhyw bwerau i wneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

Safbwynt Llywodraeth Cymru

18. Mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn nodi barn Llywodraeth Cymru ar y rhesymau dros wneud y darpariaethau hyn ar gyfer Cymru, gan ddatgan:

“Mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi'r darpariaethau yn y Bil sy'n ymwneud â threthiant incwm ar incwm eiddo, ac mae darparu pŵer ychwanegol i'r Senedd i amrywio cyfraddau treth incwm eiddo Cymru yn gyson ag egwyddorion treth Llywodraeth Cymru a'r amcan strategol o fwrw ymlaen â'r achos dros ddatganoli treth mewn ffordd glir a sefydlog. Mae'r

¹⁰ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraff 10

¹¹ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraff 11

¹² Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraff 8

¹³ Nodiadau Esboniadol y Bil Cyllid (Rhif 2), fel y'i cyflwynwyd (Bil 342), tudalen 23

Bil yn ymwneud â materion a gedwir yn ôl y gellir eu gwneud drwy ddeddfwriaeth sylfaenol yn y Senedd yn unig.”¹⁴

19. Mae hefyd yn nodi:

“Barn Llywodraeth Cymru yw ei bod yn briodol ymdrin â phwnc y cynnig cydsyniad deddfwriaethol hwn yn y Bil hwn gan y DU gan y bydd yn darparu'r unig opsiwn o bŵer ychwanegol i'r Senedd i bennu cyfraddau treth incwm Cymru mewn perthynas ag incwm eiddo. Rwyf yn argymhell, felly, y dylai Senedd Cymru gefnogi'r cynnig a rhoi ei chydsyniad.”¹⁵

20. Felly, mae'r Ysgrifennydd Cabinet yn argymhell bod y Senedd yn rhoi ei chydsyniad i'r darpariaethau a restrir yn y Memorandwm.¹⁶

2. Ystyriaeth y Pwyllgor

21. Fe wnaethon ni ystyried y Memorandwm yn ein cyfarfod ar 19 Ionawr 2026¹⁷ ac fe wnaethom ystyried ein hadroddiad a chytuno arno, yn ein cyfarfod ar 26 Ionawr 2026¹⁸.

Ein barn ni

Cydsyniad deddfwriaethol

22. Nodwn asesiad Llywodraeth Cymru o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer, fel y nodir yn y Memorandwm.

23. Nodwn hefyd safbwynt Llywodraeth y DU o ran cydsyniad.

Casgliad 1. Rydym yn cytuno ag asesiad Llywodraeth Cymru, fel y nodwyd yn y Memorandwm, o'r darpariaethau yn y Bil y mae angen cydsyniad y Senedd ar eu cyfer yn unol â Rheol Sefydlog 29.

¹⁴ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraffau 12 a 13

¹⁵ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraff 16

¹⁶ Llywodraeth Cymru, Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Cyllid (Rhif 2), 16 Rhagfyr 2025, paragraff 16

¹⁷ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 19 Ionawr 2026

¹⁸ Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, 26 Ionawr 2026

Gweithio rhynglywodraethol a phwerau dirprwyedig

24. Nodwn nad yw'r Bil yn dirprwyo unrhyw bwerau gwneud rheoliadau i Weinidogion Cymru.

25. Nid yw'r Memorandwm yn cadarnhau pa ymgysylltu a gafwyd rhwng Trysorlys EF a Llywodraeth Cymru mewn perthynas â'r Bil.

26. Yn benodol, nid yw'r Memorandwm yn nodi a gynhaliwyd unrhyw drafodaethau ynghylch a allai Gweinidogion Cymru fod wedi cael pŵer i ddod â'r darpariaethau hyn i rym ar gyfer Cymru, drwy reoliadau, yn lle Trysorlys EF. Mae hyn yn arbennig o nodedig o ystyried bod Cymal 8(5) yn caniatáu dyddiad cychwyn gwahanol yng Nghymru a'r Alban. Felly, byddai unrhyw fanylion ynghylch pryd y mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r pwerau gael eu cychwyn yn ddefnyddiol.

27. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro pam mae'r pwerau ychwanegol a gynigir ar gyfer y Senedd yn Atodlen 2 i'r Bil i'w cychwyn gan reoliadau a wneir gan Drysorlys EF, heb unrhyw rôl i Weinidogion Cymru.

Argymhelliad 1. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro sut mae cymal 8(2) o'r Bil yn ystyried Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig¹⁹ sy'n darparu y dylai pwerau dirprwyedig ym Miliau'r DU mewn meysydd datganoledig gael eu rhoi i Weinidogion Cymru yn unig.

Argymhelliad 2. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet nodi pa sicrwydd y mae wedi'i gael gan Lywodraeth y DU y bydd y pwerau a gynigir ar gyfer y Senedd yn y Bil yn cael eu cychwyn, ac, yn unol â hynny, y dyddiad y mae'n disgwyl i'r pwerau hynny gael eu cychwyn gan Drysorlys EF. Wrth wneud hynny, dylai'r Ysgrifennydd Cabinet roi crynodeb o unrhyw drafodaethau perthnasol a gynhaliwyd gyda Llywodraeth y DU ar y materion hyn.

28. Mae'r Pwyllgor yn cydnabod bod y Bil yn cyflwyno ysgogiad ariannol newydd i Gymru, drwy gyflwyno'r pŵer i osod cyfraddau ar wahân yng Nghymru ar gyfer treth incwm eiddo. Byddai'n ddefnyddiol gwybod a yw Llywodraeth Cymru, fel rhan o'r trafodaethau yn ymwneud â'r Bil hwn, wedi ymgysylltu â Llywodraeth y DU ynglŷn â datganoli elfennau eraill o dreth incwm a gedwir yn ôl.

Argymhelliad 3. Dylai'r Ysgrifennydd Cabinet egluro pa drafodaethau a gynhaliwyd gyda chymheiriaid yn Llywodraeth y DU mewn perthynas â datganoli

¹⁹ Llywodraeth Cymru Datganiad Ysgrifenedig: Egwyddorion Llywodraeth Cymru ar Ddeddfwriaeth y DU mewn meysydd datganoledig, 13 Rhagfyr 2024

unrhyw elfennau eraill o'r drefn treth incwm yn y dyfodol, gan gynnwys incwm difidend ond heb fod yn gyfyngedig i hynny.